# DINESYDD

**Tachwedd**

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1982

RHIF 91


# S4C - "YMA I AROS!"

Erbyn y gwel y geiriau hyn olau dydd bydd arlwy S4C wedi ei ddadorchuddio a'r gwylwyr ymhob cwr o'r wlad wedi cael cyfle i'w flasu. Bydd Sianel 4 Cymru wedi agor neu os na bydd hynny wedi digwydd bydd rhywbeth mawr o'i le. Wedi misoedd o baratoi dygn a diwydrwydd dibendraw bydd gennym fframwaith newydd o deledu yng Nghymru a S4C yn cymeryd ei lle ochr yn ochr â BBC Wales a HTV Wales (ie, Wales gan na bydd dim Cymraeg ar y gwasanaethau hyn) a BBC2.

Gobeithio y bydd i'r Sianel lwyddo i ennill calonnau a theyrngarwch y gynulleidfa fel ag a wnaeth Radio Cymru a derbyn yr un croeso twymgalon ar aelwydydd o Gaergybi i Gaerdydd. Gan mai ar yr oriau brig y lleolir y rhaglenni Cymraeg mae'n siwr y bydd mynychwyr cyfarfodydd, cyngherddau, pwyllgorau, seiadau a thafarnau yn cwyno nad yw'r amserlen yn un cyfleus iddynt hwy. A beth am bwyllgorau Bwrdd Golygyddol 'Y Dinesydd' a noson fawr rhoi'r hen frawd yn ei wely! Wedi'r cyfan mae'n gwbl amhosibl plesio pawb - yn enwedig yng Nghymru.

Nid dros nos y bydd i S4C ennill ei phlwyf. O ran hynny fe gymer ddyddiau, os nad wythnosau, i rai ddarganfod sut i diwnio'r botwm addas ar y set a mae'n amhosibl rhoi cyfarwyddyd cyffredinol gan fod pob set yn wahanol. Ac nid pob dim o'r arlwy fydd yn taro deuddeg. Ond does gennyf ddim amheuaeth y daw S4C a mwyniant, hyder a chyffro newydd i'n bywydau.

Dwy nod a her sylfaenol sydd yn wynebu S4C. Yn y lle cyntaf, darparu mwy a gwell rhaglenni teledu yn Gymraeg nag a gafwyd erioed o'r blaen ac erbyn y darllenwch chi'r geiriau hyn byddwch wedi dechrau ffurfio eich argraffiadau cyntaf o'r gwasanaeth. Yn ail, mae S4C, trwy ei dyfodiad, yn ehangu'r dewis ar draws y bedair sianel. Oherwydd y canolbwyntio o raglenni Cymraeg ar y bedwaredd sianel bydd cyfle i'r BBC a HTV gynyddu nifer y rhaglenni Saesneg yn benodol ar gyfer y gwylwyr yng Nghymru.

Bu'r gefnogaeth i'r Ysgolion Meithrin, Cynradd ac Uwchradd Cymraeg gan y di-Gymraeg yn ogystal a'r Cymry Cymraeg yn destun rhyfeddod ac yn gyfrwng ysbrydiaeth i lawer iawn ohonom. Llwyddodd yr ysgolion hyn i ddenu rhieni yn ogystal a phlant at yr iaith a chrewyd pontydd ieithyddol lle bynnag y ceid un o'r ysgolion hyn o Wynedd i Went. Mae'n rhaid wrth y pontydd hyn os yw'n hiaith i fyw a ffynnu yn yr unfed ganrif ar hugain.

Partneriaeth arbennig iawn o ddarlledwyr yn gweithio i wahanol gyfundrefnau a than amryfal amodau ac amgylchiadau yw Sianel 4 Cymru. Ffrwyth llafur a brwdfrydedd y bartneriaeth hon ddaw i'ch cartrefi bob nos. Y chi'r gwylwyr bellach sydd i benderfynu a yw'r arlwy at eich dant. Rydym ni'n hyderus bod S4C yma i aros ac i fod yn un o'r elfennau hynny sydd yn cyfoethogi ein bywyd yma yn y brifddinas fel ag ym mhob tref, pentref a chwmwd drwy'r wlad. Dyna ein nod, ein bwriad am rhesymol wasanaeth.

Owen Edwards.



**Marathon**

# GOLYGYDDOL

Wel! Mae'r babi hir-ddisgwyliedig wedi ei eni. Gobeithio na fu'r esgor yn rhy drafferthus i'r rhai sydd wrth y llyw. Wrth ddathlu cyrraedd y newydd-ddyfodiad, na foed inni anghofio poen y cenhedlu. Dioddefodd llawer yn enbyd er mwyn r rhoi anadl-einioes i'r syniad a feddent y dylai fod gan Gymru sianel gyfan i'w hiaith genedlaethol. Ymddangosai'r syniad ei hun fel cyfuniad rhyfedd rhwng gweledigaeth ryfygus a gwallgofrwydd pur. A hyd y diwedd, cael a chael fu hi.

Ond etifedd y genhedlaeth honno a wnaeth ei hun yn amhoblogaidd iawn ddeng mlynedd a mwy yn ôl yw S4C. Sianel ifanc yw hi. Mae'n briodol fod llawer o Gymry ifanc brwdfrydig yn ei chynnal a'i chadw.

Os yw stori cenhedlu'r sianel yn mynnu iddi le yn hanes yr iaith Gymraeg, mae ei bodolaeth nawr yn rhoi urddas i'r hanes hwnnw. Mae S4C bellach yn rhan o'r etifeddiaeth. Gyda'r rhaglenni Cymraeg i gyd wedi eu cymryd oddi ar y ddwy brif sianel boblogaidd, mae gobaith y gwelwn nid yn unig urddas ond undod hefyd.

I ni, Gymry Cymraeg, nid oes ond gobeithio nad etifedd tawel fydd e. Mae angen babi swnllyd a sgrechlyd ar aelwyd y genedl, er mwyn ein cadw'n effro.

Mae afiaith yr arlwyd hyd yma yn argoeli'n dda. Pob lwc!

* * *

Croeso hefyd i <u>SULYN</u>. Nid yw'r papur Sul hwn ar gael yma yng Nghaerdydd, mae'n wir, ond mae'n braf gweld menter newyddiadurol fel hon yn cael ei thraed tani yng Ngwynedd. Nid papur bro yw papur Sul a gobeithiwn ei weld yn lledaenu dros Gymru gyfan pan fydd arian ac adnoddau yn caniatau hynny.

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD 561788**

# LLYTHYRAU

Annwyl Syr,

Bridge-in-Britain (Chwefror-Awst) 1984.

Carwn dynnu sylw eich darllenwyr at yr ysgoloriaethau hyn a noddir gan Ymddiriedolaeth Addysgol Cyfeillion Israel. Amcan y cynllun yw hyrwyddo gwybodaeth ymarferol a dealltwriaeth o broblemau a llwyddiannau Israel a'i phobl. Cynigir costau teithio i Israel ac yn ôl a bwyd a llety dros gyfnod o chwe mis yn y wlad i ryw ddeuddeg o ddisgyblion fydd newydd ymadael â'r ysgol. O dan y cynllun, rhoddir i'r enillwyr:

* le i weithio ar gibwts (fferm gydweithredol)
* brofiad mewn gwaith cloddio archaeolegol (dan arolygiaeth Prifysgol Tel Aviv)
* dau fis o waith cymdeithasol mewn tref newydd.
* gyfle i gyfarfod â gwŷr academaidd a phroffesiynol ym maes astudiaeth arbennig yr enillwr.
* seminarau a theithiau yn ogystal ag amser rhydd i weld y wlad.

Nid oes angen gwybodaeth o'r Hebraeg. Bydd cymorth arbenigwyr i'w gael trwy gydol y cyfnod yn Israel.

<u>Amodau</u>: Rhaid i ymgeiswyr fod dros 18 oed ac mewn iechyd da. Cynigir lleoedd i bawb heb ystyried rhyw, crefydd na daliadau eraill.

Disgwylir i bob ymgeisydd egluro eu rhesymau dros ddymuno treulio cyfnod yn Israel mewn traethawd heb fod yn llai na 400 o eiriau, i'w gyflwyno i'r Bwrdd heb fod yn ddiweddarach na Hydref 1af, 1983; ynghyd â curriculum vitae yn cynnwys dyddiad geni, cyfeiriad, rhif ffôn cartref, crefydd, cymwysterau academaidd, diddordebau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Rhoddir cyfweliad unigol i bob ymgeisydd ar y rhestr fer.

John D.A. Levy,
Cyfarwyddwr.

Friends of Israel
Educational Trust,
25 Lyndale Avenue,
Llundain. NW2 2QB.

Annwyl Syr,

Gair bach o ddiolch i bobl Caerdydd am eu caredigrwydd i mi yn ystod fy ngwyliau ym Mhrifddinas Cymru o Fedi'r 18fed - 27ain. Cefais amser hapus iawn yna, er fod y tywydd yn anifyr yn ystod fy arhosiad.

Mae rhywbeth yn ychydig o benbleth i mi. A yw Cymry Caerdydd yn derbyn rhaglenni Cymru ar y teledu a'r radio? Yn y gwesty lle roeddwn yn aros, dim ond tonfedd Bryste oedd ar sianel BBC a Harlech. Mae yn rhyfedd iawn os yw ein Prifddinas yn methu â chael rhaglenni Cymraeg ar y teledu a phencadlys y BBC a Harlech yna.

Beth fydd yn digwydd i sianel BBC Cymru a Harlech pan ddaw y sianel newydd S4C i rym ym mis Tachwedd?

Yr eiddoch yn ddiolchgar,

G.E.Jones, Abergele.

**CYNEFIN**

**CYLCHGRAWN NATUR I'R TEULU**

**Cylchgrawn newydd sbon a gyhoeddir yn ddeufisol, sy'n ymdrin a natur a bywyd cefn gwlad.**

**Rhwng cloriau <u>CYNEFIN</u> ceir erthyglau a phytiau difyr ac addysgiadol i'r teulu i gyd ar: Adar, Anifeiliaid (dôf a gwyllt) Amaethyddiaeth, Garddio, Pysgota, Hela, Cadwraeth a llawer mwy...**

**Mae'r rhifyn cyntaf yn eich siop leol yn awr. Mynnwch eich copi. Pris 60c.**

***<u>Hefyd:</u>***
***CALENDR CYNEFIN 1983***
***6 llun lliw llawn o anifeiliaid ac adar. Pris £1.15.***



GWASG DWYFOR
Y Maes, Pwllheli. (0758) 2704

# Y CALENDR

Tachwedd

1 Merched y Wawr. Festri Capel Minny St.,7.30, 'Rhyfeddod Patrwm a Lliw Siop Jen'.

5 Cymrodorion Caerdydd, Festri Tabernacl,7.15, Cwmni Drama'r Gadwyn, Radur.

10 Bore Coffi, Ysgol Feithrin Y Waun,King George Vth Drive, 10-12 o'r gloch.

10 Cymdeithas y Dysgwyr, Tŷ'r Cymry, 11 Gordon Road, L. Rowlands, 8 p.m.

11 Merched y Wawr Gwent, Ystafell 149 y Ganolfan Ddinesig am 7.30 - Hud yr Hwiangerddi.

11 Clwb Cinio Merched Caerdydd. Thatchers, 7.30, Siaradwr: Havard Gregory.

12 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Pen-lline Road am 7.30 o'r gloch. Dr. Ceinwen Thomas, 'Tafodiaeth Cwm Taf Morgannwg'.

12 Cymry'r Wenallt, Noson Gymdeithasol gyda Chlwb Cinio'r Rhondda.

13 Ffair Nadolig Plaid Cymru, Neuadd y Ddinas, 2.00. Agorir gan Lisabeth Miles.

16 Eglwys Ebeneser, Heol Siarl, Cyngerdd gan Fyfyrwyr Coleg Cerdd a Drama o dan gyfarwyddyd Miss Margaret Tann Williams, 7.30 o'r gloch. Mynediad: £1, Myfyrwyr, 50c. Yr elw at Ysbyty Trelai ac achosion da eraill.

17 Darlith Flynyddol Cymdeithas Theatr Cymru 'Wythnos yn Hanes y Ddrama', Hywel Teifi Edwards. Adeilad y Gyfraith, Coleg y Brifysgol, 7.30, Mynediad am ddim.

19 Clwb Cinio Cymraeg Caerdydd. Noson y Boneddigesau. Ystafelloedd y Canmlwyddiant, Parc yr Arfau. 7.30 am 8 p.m. Gwestai: Hywel Teifi Edwards.

20 Cantorion Ardwyn yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Mass yn A, Ceser Franck. Maldwyn Davies, Tenor Caryl Thomas, Telyn Kathryn Thomas, Cello Caneuon gan Britten, Coplend, Greig, 7.30, Tocynnau £2

27 Mudiad Ysgolion Meithrin, 10 a.m. - 3 p.m., Theatr Ddarlithio'r Adran Swoleg, Coleg y Brifysgol, Cynhadledd Undydd, 'Integreiddio'r Plentyn Dan Anfantais i'r Cylch Meithrin a'r Grŵp Mam a'i Phlentyn'. Ffurflen Gofrestru a Manylion - 10 Park Grove, (36205)

27 Canolfan yr Urdd, Caban y Cowboi, 8-12 p.m.

Rhagfyr

3 Cymrodorion Caerdydd, Neuadd Eglwys Dewi Sant, Llywelyn ein Llyw Olaf, Darlith gan Dr. Huw Owen.

4 Ffair Nadolig Ysgol Glantaf, 2 p.m.

4 Ysgol Feithrin Llandaf, Ffair Nadolig yn Festri Salem, Canton, 2 p.m.

6 Merched y Wawr, Festri Minny Street, 7.30, Rhagflasu'r Nadolig.

7 Ysgol y Wern, Gwasanaeth Nadolig yn Eglwys y Plwyf, Llanishen, 7.00

8 'Dewch i'r Gwynfyd' gyda Aled a Menna Gwyn yn Festri Crwys am 7.30.

8 Cymdeithas y Dysgwyr, Tŷ'r Cymry, 11 Gordon Road, Parti Nadolig, 8 p.m.

9 Merched y Wawr, Gwent. Ystafell 149 y Ganolfan Ddinesig, 7.30 p.m. Trefnu Blodau Nadolig.

10 C.C.C.C., YR HWNTWS, Gwesty'r Great Western, 8 tan 12 - bar hwyr - Hanner yr elw i Gronfa'r Dinesydd.

10 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd, yn Festri Bethel, Penlline Rd. am 7.30. Dathlu'r Nadolig yng ngofal Mr. John Ewart Jones.

11 Ysgol Coed y Gof. Ffair Nadolig yn yr ysgol, 2.15 p.m.

15 Ysgol Coed y Gof, Gwasanaeth Nadolig.

17 Cyngerdd Nadolig, Eglwys Dewi Sant, dan nawdd Ysgol Feithrin Y Waun, 7.30 p.m.

18 Côr Philharmonic Caerdydd, Neuadd y Brifysgol, Corbett Rd. Perfformiad o Brahms Requiem gyda Jennifer Rhys-Davies, Soprano, a Gareth Rhys-Davies, bariton. Arweinydd: Alun Guy. Organydd: Robert Court

18 Ysgol Melin Gruffydd. Bore Coffi yn yr ysgol, 10.00 ymlaen. Band iau Melin Gruffydd yn difyrru.

Ionawr

8 Parti Nos Ystwyll, Neuadd Goffa Rhiwbeina, Yr elw at Gronfa'r Dinesydd.

---

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Arthur Davies, 306, Heathwood Road, Caerdydd ar ddathlu eu priodas ddeiamwnd.

Mae Mr. Davies yn enedigol o Sir Gaerfyrddin a Mrs. Davies o Benygraig, Y Rhondda, ble priodwyd y ddau ym mis Awst 1922. Aeth y ddau i fyw yng Ngwaun Cae Gurwen hyd 1957 pryd yr ymddeolodd Mr. Davies o'i swydd fel athro yn Ysgol Ramadeg Rhydaman. Yn ystod y cyfnod yma bu'r ddau'n weithgar gyda'r "pethe" yn yr ardal ac fe barhaodd hyn ar ôl iddyn nhw symud i Gaerdydd - Mr. Davies yn ddiacon yn Ebeneser ac yn gyn-lywydd y Cymrodorion a Chymdeithas Sir Gaer a Mrs. Davies yn gyn-lywydd Cymdeithas Mamau a Merched Cymru.

Daeth aelodau'r teulu at ei gilydd yn Jellicoe Gardens i ddathlu'r achlysur a galwodd nifer helaeth o gyfeillion heibio i ddymuno'n dda i Mr. a Mrs. Davies ar gyrraedd y garreg filltir yma.

---

Llongyfarchiadau i Alun Guy ar gael ei wahodd i arwain Cymanfa Ganu Gogledd America yn Wilkes-Barre, Pennsylvania ym mis Medi.

# COLOFN
## Shân Emlyn

Roedd cryn amheuaeth a fyddai angen i mi roi pen ar bapur y mis yma gan brined coffrau'r Dinesydd. Ond fe ddaeth peth ymateb oddi wrth rai o ddarllenwyr y Dinesydd, a dyma ni, yn llusgo byw am fis arall. Ydy'r holl ymdrechu yma'i werth o 'dwch?

Tybed fyddwch chi fel fi yn mynd reit fflat o bryd i'w gilydd - teimlo bod popeth y mae rhywun ynglŷn ag o yn ymladd am ei einioes, oherwydd unai difrawder, diffyg arian neu ddiffyg adnoddau? Yda chi wedi prynu tocyn i rywbeth erioed heb ofyn "at be mae o?" Mi wyddoch i gyd am y profiad o orfodi'ch hun i godi allan fin nos i fynychu rhyw gyfarfod am eich bod yn teimlo'i bod hi'n ddyletswydd arnoch gefnogi mudiad neu achos. Y mae pob pleidlais i mi ei bwrw erioed wedi'i rhoi i ymgeisydd aflwyddianus neu i achosion coll!

Yn y misoedd diwetha fe glywn ar fwletinau newyddion ac yn y papurau newydd ddatganiadau fel "dyma farn mwyafrif y boblogaeth..." ar helynt yr Ynysoedd, ar ddiarfogi - ar bopeth. Wyddoch chi be, ofynnodd neb erioed i mi am fy marn, ac mi fyddai'n teimlo fel sgrechian hynny wrth wrando ar ddatganiadau sy'n honni bod pawb ohonom yn cefnogi penderfyniadau gwleidyddol y byd.

Nid fy mod yn disgwyl cael fy ffordd fy hun bob amser, nac yn disgwyl cael popeth ar blât, ond rwyf yn teimlo bod fy llais i a'm tebyg yn sobor o wan yn nwndwr y byd heddiw. Tydi hi'n drueni ein bod yn gorfod ymladd am fodolaeth popeth - y Papur Bro yma, Ysgolion Meithrin, Yr Urdd, Yr Eisteddfod ac yn fy achos i fudiadau mwy lleiafrifol na'r rheina sef Cymdeithas Cymry Ariannin, Undeb y Cymry ar Wasgar a Chymdeithas Alawon Gwerin.

Mi fyddai'n meddwl yn amal fy mod i yn od ac weithiau yn meddwl ein bod ni Gymry Cymraeg yn fiîd od. Eto i gyd mi fyddai'n rhyfeddu at ein dycnwch neu ai 'styfnigrwydd ydio? Y dycnwch a'r 'styfnigrwydd gobeithio i fod yn gefn i'r holl bethau sy'n brwydro yn erbyn pob anhawster i gynnal a hybu y bywyd Cymraeg. A'r diweddara o'r rhain - pob llwyddiant i Sulyn y papur Sul cynta yn y Gymraeg, ac wrth gwrs i S4C.

## S4CHWARAEON

Bydd Tachwedd laf wedi dod ac wedi mynd cyn y gwêl y llith hon olau dydd ond pa ots am hynny achos bydd gennym ninnau fel Cymry rhywbeth i ymfalchio ynddo gobeithio pan ddaw S4C i'n sgrin deledu yn wasanaeth newydd sbon danlli. Nid trafod oblygiadau eang y sianel newydd yw'r bwriad yma ond yn hytrach geisio edrych y tu ôl i'r llenni cyn y diwrnod tyngedfennol ar yr arlwy chwaraeon fydd ar ein cyfer.

Mae'r drefn newydd o raglenni chwaraeon i'w cynhyrchu o du'r BBC,HTV a'r cynhyrchwyr annibynnol, ac mae addewidion am wasanaeth cynhwysfawr, eang, difyr ac amrywiol.

O edrych yn fras ar yr amserlen dybiedig o raglenni Tachwedd a Rhagfyr, amserlen gyda llaw sydd yn ddeniadol i'r llygaid wedi ei rhannu yn lliwiau yn ôl naws arbennig y rhaglen, bydd chwaraeon o rhyw fath ymlaen bum diwrnod yr wythnos, er mae'n deg dweud mai nid Cymraeg fydd cyfrwng iaith dwy o'r rhaglenni hynny. O 'Channel 4' yn eu crynswth y dônt, a bydd y gemau 'American Football' a'r 'Basketball' yn gemau go anghyfarwydd i drwch y boblogaeth bid siwr. Wn i ddim a fydd dangos cryn awr o gemau serch hynny yn syniad a gaiff dderbyniad gwresog. Bydd angen addysgu yn ogystal a dangos y chwarae, a phwy a wŷr nad wrth wylio y daw ychydig o hwyl a mwynhad yn ôl i'n gemau cyfarwydd ninnau. O ystyried, mae cymaint o drefnu i'w wneud ar gyfer y sioeau a'r raz-a-mataz ar yr cyrion yn yr Unol Daleithiau ag sydd o bwyslais ar y gamp ei hun.

Ond rhag rhygnu ar yr ochr Seisnig i'r cyfrwng, beth fydd yn newydd i'r Cymro yn ei gadair siglo ger y tân coed ym Meddgelert, Merthyr a Meidrym. Go anhebyg y bydd unrhyw gamp yn newydd, hynny yw, fydd na ddim nad yw eisoes wedi ei ddangos ar y sgrin rhywbryd o'r blaen - wedi'r cyfan toes dim disgwyl i'r cynhyrchwyr druan ddyfeisio gemau newydd ar ein cyfer, 'Superted' neu ddim.

Ond wedi dweud hynny, mi fydd yna iaith wahanol, mi fydd yna gyfle am y tro cyntaf i ddod a gemau cyfarwydd i gegin y cyffredin yn ei iaith feunyddiol. Rydwi'n gwybod fod iaith rygbi a phel-droed a chriced ar y radio yn gyfarwydd ers dyddiau ehangu gwasanaeth Radio Cymru, a bod y termau a fathwyd at y campau hyn bellach yn llithro yn slic oddiar dafodau y sylwebyddion yn hynod o naturiol. Mae cam-ochri, ffug-bas a phelawd yn sefydliadau ar eu liwt eu hunain bellach. Bydd gweld y gemau yn ogystal â chael clust i'r Gymraeg, ochr wrth ochr, yn rhoi darlun cymaint yn gliriach o wir ystyron y termau wrth reswm, a bydd edrych ymlaen yn fawr i weld a gwrando ar snwcer, golff, athletau, paffio a champau tebyg gyda'r un graen ar yr iaith. Bydd angen bathu termau newydd a bydd angen lledaenu'r defnydd hyd nes y byddant hwythau yn ennill eu plwyf yn ddidramgwydd.

Bydd un gamp arall a fydd yn dod o gylch y cwmniau annibynol yn sicr o fod yn boblogaidd - er bydd angen cryn lwyddiant arni i gystadlu â 'Coronation Street' nos Fercher am 7.30 yr hwyr. Son yr ydwi am y Wreslo - y gornestau wedi eu trefnu gan y cawr mwyn hwnnw Orig Williams (a fu am gyfnod yn rheolwr tîm peldroed Dyffryn Nantlle) a'r cawr arall hwnnw o'r Strade, Ray Gravell fel cyflwynydd, a Nic Parry fel sylwebydd yn cael cyfle i roi bri ar y Gymraeg rhwng penelin a phenglin math Mick McManus a Johnny Kwango a'u cyfeillion. Diddorol fydd clywed y termau Cymraeg am 'double-leg-Nelson' a'r 'Boston-crab'!

Prif gaffaeliad S4Chwaraeon fydd y rhaglen 'Y Maes Chwarae' o du'r BBC - rhaglen 50 munud am 9.30 yr hwyr ar nos Sadwrn a fydd yn dod a'r adroddiadau canlyniadau, croes-doriadau o'r gemau a'r campau yn gynharach yn y prynhawn cyn i'r gwaed oeri fel petae. Rygbi fydd yn mynnu'r mwyaf

i tud 9

# IORWERTH CYFEILIOG PEATE

Bu farw'r Dr. Iorwerth Peate ar Hydref 19 yn ei gartref, Maes y Coed, Sain Nicolas, lle y symudodd i fyw ychydig cyn iddo ymddeol fel Curadur yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan yn 1971. Un o Lanbrynmair ydoedd ac yr oedd stamp yr ardal honno ar ei gymeriad. Daeth i Gaerdydd gyntaf yn 1927 pan benodwyd ef ar staff yr Amgueddfa Genedlaethol ac yn Rhiwbeina yr oedd ei gartref hyd nes iddo symud i Gastell Sain Ffagan pan agorwyd yr Amgueddfa Werin yn 1948.

Ef yn anad neb a'n dysgodd fel cenedl i werthfawrogi'n diwylliant gwerin. Y cam cyntaf yn y cyfeiriad hwn oedd creu'r Gegin Gymreig yn yr Amgueddfa Genedlaethol - arddangosfa a ail grewyd eleni ym Mharc Cathays i ddathlu hanner canmlwyddiant sefydlu'r Is-Adran Diwylliant Gwerin. Gan gyhoeddi llu o erthyglau a darlithio ar hyd a lled Cymru, paratodd y ffordd ar gyfer math o arddangosfa a oedd yn llawer mwy uchelgeisiol sef Amgueddfa Werin awyr agored ar batrwm y rhai Scandinafaidd, a daeth cyfle braidd yn annisgwyl ar ôl yr ail ryfel byd i sefydlu'r math newydd hwn o amgueddfa pan gynigwyd Castell Sain Ffagan a'r tir o gwmpas gan Iarll Plymouth i fod yn gartref i'r sefydliad newydd. O dan gyfarwyddyd y Dr. Peate adnewyddwyd y Castell a dechrau symud adeiladau o gefn gwlad a'u hail-godi yn y 'parc gwerin' fel y cyfeiriai ati weithiau. Codwyd adeiladau amgueddfaol pwrpasol yn y chwedegau ac erbyn i'r Dr. Peate ymddeol yn 1971 yr oedd yr amgueddfa werin wedi tyfu'n un o'r rhai enwocaf yn Ewrop.



Ni ddylid anghofio cyfraniad mawr y Dr. Peate i fywyd Cymru mewn meysydd eraill megis llenyddiaeth a chrefydd. Cydnabu Cyngor y Celfyddydau ei weithgarwch llenyddol ar fwy nag un achlysur, a derbyniodd Fathodyn y Cymrodorion yn 1978 am ei waith nodedig a diflino dros Gymru. Fe'i anrhydeddwyd hefyd gan Brifysgolion Cymru ac Iwerddon yn eu tro, ac fe saif yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan yn gofadail iddo ac i'w weledigaeth fawr.

Trefor Owen.

---

Dymunwn yn dda i Mr. a Mrs. Huw Owen ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Gwyn eu byd yn cael ymgartrefu ym Mhen Llŷn.

---

CANOLFAN YR URDD

Yn dilyn llwyddiant ysgubol 'Ffrolics Ffrainc', fe gynhelir 'CABAN Y COWBOI' - ar nos Sadwrn, Tachwedd 27ain, yng Nghanolfan yr Urdd, 8 p.m. - 12 p.m.

Adloniant, bwyd a diod, noson o hwyl a sbri - ac wrth gwrs, disgwylir i bawb wisgo yn nhraddodiad y GORLLEWIN GWYLLT!! - YIPEE!

Tocynnau a Manylion Pellach - Canolfan yr Urdd, ffôn 36201; Taflen, ffôn 27530.

---

DARLITH FLYNYDDOL CYMDEITHAS THEATR CYMRU

'WYTHNOS YN HANES Y DDRAMA'

gan HYWEL TEIFI EDWARDS

yn Adeilad y Gyfraith, Coleg y Brifysgol, Ffordd yr Amgueddfa, Caerdydd.

NOS FERCHER, 17 TACHWEDD

am 7.30 p.m.

Mynediad am Ddim.

Croeso cynnes i bawb.

---

CANOLFAN YR URDD, HEOL CONWY, CANTON, CAERDYDD.

APÊL

Na, nid apêl arall am arian unwaith eto, ond apêl am amser ac egni.

Tybed a fyddwch chi yn barod i roi ychydig o'ch amser i gynorthwyo gyda gwaith yr Urdd yng Nghaerdydd? Fel arfer gyda'r Ganolfan yma y cysylltir enw'r Urdd yn y ddinas, ond mae 'na weithgaredd arall hefyd, sef yr adrannau pentref. Mae rhain yn cyfarfod mewn sawl rhan o Gaerdydd, yn Llandaf, Radyr, Rhiwbeina a Pharc y Rhath. Hyd at fis Gorffennaf, roedd Rhydypennau a'r Eglwysnewydd hefyd yn cyfarfod yn gyson, ond oherwydd prinder pobl i ysgwyddo'r baich, bu'n rhaid dirwyn y rhain i ben. Serch hynny, mae'r angen yn parhau, ac yn cynyddu.

Mae gwerth mawr i'r adrannau pentref i Gymreictod y plant, a mawr obeithiwn y byddwch yn ystyried o ddifrif, a oes modd i chi wneud rhywbeth ymarferol i sicrhau parhad a datblygiad yr adrannau.

Gellwch wneud sawl peth,

o helpu i redeg adran i gynnig gweithgaredd arbennig i'r adrannau, megis ffotograffi, pysgota, celf, ac yn y blaen.

Os y teimlwch fod modd i chi gyfrannu i'r apêl yma mewn unrhyw ffordd, yna galwch neu ffoniwch am sgwrs. Y rhif ffôn yw 36201.

---

CANOLFAN YR URDD, HEOL CONWY, CAERDYDD.

H Y W E L   G W Y N F R Y N

yn cyflwyno

C A B A N   Y   C O W B O I

NOS SADWRN, TACHWEDD 27ain
£3 - ADLONIANT, BWYD A DIOD!
8 o'r gloch - Hanner Nos

Gwisg addas - ar gyfer y Gorllewin Gwyllt!

Tocynnau - SIOP TAFLEN, CANOLFAN YR URDD.

Dymuna'r Trysorydd gydnabod rhoddion ac Archebion Banc newydd yn ystod mis Hydref oddi wrth y canlynol, gyda mawr ddiolch :

Oddi wrth unigolion:
Mr. a Mrs. Emyr Currie Jones; Mr. a Mrs. Idris Jones, Llandaf; Mr. a Mrs. Hywel Morris; Mr. Gwilym Roberts; Mrs. Elinor Wyn; Huw Thomas (Caerffili); Mrs. Margery Fielding, Rhiwbeina; Mr. Wyn Jones; Mr. Alun Davies; Mrs. Sylvia Evans; Mrs. Gwyneth Jones, Rhiwbeina; Mr. a Mrs. Gwyn Jones, Pentyrch; Mr. a Mrs. Owen Edwards; Dr. a Mrs. Dafydd Huws; Dr. Harri Pritchard Jones; Lisa Purnell (Caerffili); Dienw (Pentre,Rhondda); Dr. Alun Oldfield-Davies; Mr. E.W. Meurig Williams; Mr. a Mrs. Geraint Walters; Mr. Glyn Evans

Archebion Banc:
Mr. M.P.Palmer; Merched y Wawr, Cangen y Garth; Dr. a Mrs. Ben Thomas; Mr. a Mrs. Iolo Walters; Mr. a Mrs. J.B. Jones, Radur; Hefin ac Elinor Wyn; Mr. a Mrs. T.Raymond Edwards; Mrs. Rhian Thomas, Penarth.

Oddi wrth Gymdeithasau:
Merched y Wawr,Caerdydd; Cymdeithas Canna,Canolfan yr Urdd; Cwmni Dawns Werin, Canolfan Caerdydd.

ARCHEB BANC

At y Rheolwr..............(Banc)

.......................(Cyfeiriad)

.............................

Dymunaf i chi dalu i Fanc Masnachol Cymru, 114-116 Heol y Santes Fair, Caerdydd i gyfrif PWYLLGOR RHEOLI Y DINESYDD,rhif cyfrif 40985012, ar unwaith, ac ar y dydd cyntaf o fis.......... bob blwyddyn wedi hynny oni ddiddymir yr archeb gennyf mewn ysgrifen y swm o .............. (mewn geiriau) £......(mewn ffigurau).

Arwyddwyd ......................

Cyfeiriad ......................

..............................

Rhif ac enw'r Cyfrif............

..............................

Dyddiad ................

Dylid anfon y ffurflen uchod at: Mr. Emrys Jarman, Trysorydd Y Dinesydd, 198 Hill Rise, Llanedeyrn yn hytrach na'i anfon at eich Banc.

# ARDDANGOSFA

Pan fyddwch yn ymweld â 'Noa' yn Y Sherman yn ystod mis Ionawr, cofiwch alw yn yr oriel newydd i gael golwg ar yr arddangosfa yno.

Arddangosfa arbennig fydd hon ar eich cyfer chi. Fe gyfrannodd nifer o arlunwyr proffesiynol ac amatur enghreifftiau o'u gwaith ar gyfer yr arddangosfa ac fe fydd y gwaith i gyd ar werth i'r cyhoedd, gyda'r arian yn mynd i gronfa Eisteddfod yr Urdd Caerdydd 1985.

Fe dderbyniwyd nifer dda o waith diddorol ac amrywiol eisioes, gan gynnwys gwaith Eleri Mills, Arthur Miles, Dora Hurst a Tom Hutchinson. Dyma gyfle ardderchog i chi sy'n ymddiddori mewn arlunio gyfrannu tuag at yr Urdd ac arddangos eich gwaith gyda mawrion y genedl. Cysylltwch ag Eluned Davies, Ysgrifenyddes y Pwyllgor Celf a Chrefft, Ffôn 766976 ar unwaith.

I'r rhai ohonoch sy'n chwilio am yr anrheg Nadolig delfrydol i'ch gŵr, gwraig, nain neu'r bos, yna prynwch a gyrrwch docyn Llun yn hytrach na thocyn llyfr iddynt. Caiff y derbynydd ddefnyddio'r tocyn o unrhyw werth fel rhandaliad am ddarlun o'r arddangosfa. Gyrrwch i'r cyfeiriad isod neu ffonio 766976 am fwy o fanylion.

Dyma gyfle i ennill tocyn llun sy'n eich galluogi i gael gostyngiad o 10% o bris unrhyw waith yn yr arddangosfa.



Enwch y ddau berson uchod a llenwch y ffurflen isod a'i danfon i 19 Stryd Dogfield,Cathays, erbyn Tachwedd 30. Yr enw cyntaf a ddaw allan o'r pot paent sy'n ennill.

- - - - - - - - - - - - - - - -

- - - - - - - - - - - - - - - -

Enw: ..........................

Cyfeiriad: ....................

..............................

..............................

GENEDIGAETH

Dymuna Derek a Lynne Brooks gyhoeddi genedigaeth mab, Russell Thomas, ar Orffennaf 29ain. Dyma frawd bach i Emily Christine ac ŵyr i'r Dr. a Mrs. J.D.R. Thomas, 8 Egremont Road, Caerdydd.




Newyddion Clwb Cymric

Tydi pethau ddim yn rhy lewyrchus ar hyn o bryd yn y busnes peldroed 'ma, ac mae 'na gryn waith i'w wneud i godi'r safon a sicrhau canlyniadau gwell cyn y Nadolig. Mae'r brwdfrydedd a'r awydd yno yn sicr ond fawr o ddim arall yn anffodus! Gweler y canlyniadau -

Tîm Cyntaf:
v Tongwynlais, cyfartal 1-1 (Rhodri)
v Tresimwn, colli 1-3 (Rheon)
v Llafurwyr y Rhath, colli 3-7 (Wyn,Rheon, Alun Meirion)
v Splott Albion, cyfartal 1-1 (Wyn)

Ail Dîm:
v Llanrhymni, cyfartal 4-4 (Dafydd 2,Der,Martin)
v Coleg Llandaf, colli, 0-5
v Lifts, colli 1-5

Rhyw gredu rhywfodd fod peldroed yn cael lle eilradd gan amryw o'r aelodau ar hyn o bryd, ond mae'n braf cael gwybod y bydd dyfodol y Clwb yn saff - diolch i Dewi, Rheon a John Hardy (a'r gwragedd wrth gwrs!))

RHAG CYWILYDD

Lai na thair blynedd yn ôl yr oedd hi'n hirddydd haf ar rieni ysgolion Cymraeg De Morgannwg: yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf yn y brifddinas ar ei thraed a phedair ysgol gynradd yn yr arfaeth. I sylweddoli'r datblygiad ar y lefel gynradd, agorwyd ysgol Melin Gruffydd gyntaf, yna Coed y Gof ac Ysgol y Wern. Ar ôl, yn dal i hir aros am gartref sefydlog yr oedd gweddillion y fam ysgol - Ysgol Gymraeg Bryntaf yn y Rhodfa.

Yn ystod y flwyddyn addysgol ddiwethaf hon, fodd bynnag, gwelwyd digwyddiadau na fuasai'r mwyaf llugoer ei galon tuag at addysg Gymraeg wedi dychmygu amdanynt. Anghofiwyd am undod nod ac ysbryd y rhieni hynny a ymladdodd tros genedlaethau am addysg Gymraeg yng Nghaerdydd; gwelwyd mai'r hinsawdd bellach oedd, a siarad yn blaen, 'twll dy din di a gwyn fy myd i'. Do, fe welwyd rhieni â phlant mewn ysgol Gymraeg yn codi eu llaw yn erbyn y gweddill yn y fam ysgol, yn ymuno ar air a gweithred â gelynion addysg Gymraeg i lesteirio'r gobaith am gartref teilwng a haeddiannol i'r bedwaredd ysgol. Rhag eich cywilydd chi. Deuwn yn awr at ymdrechion swyddogol yr Awdurdod Addysg i ddatrys 'problem' lleoliad y bedwaredd ysgol; 'problem' yw addysg Gymraeg yn nhermau Awdurdod Addysg De Morgannwg er eu bod yn cydnabod yn agored bod y galw am yr addysg hon yn cyson gynyddu yn y sir.
Fis Chwefror eleni daeth cynnig hael ynghyd ag addewidion brwd oddi wrth Bwyllgor Gwaith Addysg Gymraeg De Morgannwg i godi ysgol newydd sbon yng nghaeau chwarae Harlequins yn ardal Y Rhath - lleoliad hollol ddelfrydol i'r bedwaredd ysgol. Croesawodd y rhieni'r cynnig yn llawen a beiwyd rhai o aelodau'r pwyllgor rhieni yn chwyrn gan yr Awdurdod am feiddio amau na welid cyflawni'r addewid. Oedd, yr oedd arian ar gael i godi'r ysgol; oedd, yr oedd y tir ar gael gam mai De Morgannwg oedd piau'r meysydd chwarae. Ymhen dwy flynedd byddai'r ysgol newydd ar ei thraed a gellid aros yn y Rhodfa tan y diwrnod bendigedig hwnnw pan agorai pyrth yr ysgol newydd hon.

Bellach, eglurwyd i'r rhieni mai ysgol Penyrheol, Llanrhymni, fydd cartref y bedwaredd ysgol Gymraeg, yn wir rhoddwyd siars ar y rhieni i fod 'yn rhesymol'. A beth am y plant y bydd yn rhaid i bob un ohonynt ac eithrio 16 deithio tros 2 a 3 milltir (rhai pedair oed cofiwch chi) i'r ysgol anhygyrch hon? Beth am effaith y lleoliad hwn ar ysgol feithrin Heol y Crwys sy'n bwydo Bryntaf? Pa rieni, ag eithrio'r rhai mwyaf brwd a di-ildio, a fydd yn anfon eu plant i'r ysgol feithrin a'r ysgol Gymraeg ei hun 3 milltir i ffwrdd? Ymhellach bydd oddeutu 50% o'r plant yn gorfod talu am eu cludo i'r ysgol a bydd hynny tua £63 y plentyn y tymor - rhad ar y cartrefi hynny â dau neu ragor o'r plant am addysg Gymraeg. Dyna i chi beth y mae plaid sosialaidd(?) yn ei gynnig i rieni yr ysgol Gymraeg hon, caiff eich plant yr addysg os oes gennych y modd i dalu amdano!

Wel dyna'r darlun trist ichi : Awdurdod diegwyddor, dideimlad ac afresymol. Fodd bynnag, nid yw'r frwydr ond megis dechrau.

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Pan afaelais yn y golofn hon, ddwy flynedd a mwy yn ôl bellach, cerdd gan Emyr Lewis o Lys-faen oedd y gyntaf i'w chyhoeddi ynddi. Bu Emyr ar grwydr colegawl y blynyddoedd diwethaf hyn ac yn ddistaw o'r herwydd efallai, ond braf yw cael ei groesawu yn ei ôl i Gaerdydd erbyn hyn, a braint yw cael cyhoeddi'r gerdd nodedig hon o'i eiddo.

Mab Iolo Morganwg oedd Taliesin Williams, ab Iolo fel y'i galwai ei hunan, ac ond odid un o gymeriadau mwyaf trasig y ganrif ddiwethaf. Ysgolfeistr ym Merthyr ydoedd, yn treulio'i hoedl yno yn mynd trwy'r cruglwyth hwnnw o bapurau a ddygasai o Drefflemin wedi marw ei dad, yn ceisio rhoi trefn arnynt ac yn cwbl gredu'r cyfan a gafodd ynddynt. Dywedodd Griffith John Williams amdano: 'Ymdebygai i'w dad - breuddwydio am bob math o bethau, a ffurfio pob math o gynlluniau, ac yn y man, anghofio popeth amdanynt'. Mae'r Athro hefyd yn dyfynnu llythyr ab Iolo at ei gyfaill J.M. Traherne yng Nghoedrhiglan pan yw'n cwyno am y 'Bronchitis, which I suspect to be another name for an hereditary asthma that inveterately stuck to my poor Father for so many years; and also to my Grandfather'. Diweddodd ab Iolo ei oes yn feudwy melancolaidd ym Merthyr. Dechreuodd hi yng ngharchar Caerdydd.

## AB IOLO

Anwesodd y dail fu dan fysedd ei dad,
blagur enaid y rebel gwâr hwnnw,
geiriau y bu eu hesgor balch
yn arwydd o'r cyffro ym Mro mor real
ei bendroni chwyrliog.

Dail yn afradlon hyfrydliw,
ir dan wlith ei athrylith remp,
hyd nes i amser, yn ôl ei arfer o,
un wrth un, eu tocio hwy
o'u hyfrydliw fyrhoedledd
a thynnu ias perthnasedd,
ansawdd eu byw, o sudd eu bywyn.

Yna'r troelli hurt tua'r llawr,
yn wrtaith fyw i artaith ei fab
ac i efrau gwallgofrwydd
(y braw yn cwato dan y bronceitis)
a dagai hyd yn oed egin
y bythol obeithio
y gwelid gwrido
murmur o wanwyn ym mêr y memrynnau.

Emyr Lewis

Cofiwch am y croeso sydd yn y golofn i'ch cerddi. Y cyfeiriad yw 'Penmaen', 31, Heol Don, Yr Eglwysnewydd.

# MARATHON - A'R HEN FARATHON ARALL

Ni fu cymaint o hysbysebu ar y marathon eleni âg â fu y llynedd ond bu'r ymdrech yn fwy a'r ymarfer yn llawer mwy cyson.

Dyblwyd nifer o athrawon Rhydfelen a gymerodd ran eleni. O'r ddau profiadol, gwellwyd yr amser y tu hwnt i bob disgwyl, ac o'r ddau newydd, roedd y profiad yn boenus ond yn foddhad ar ôl gorffen.

Dyblwyd nifer y disgyblion ddwywaith drosto a chwarae teg iddynt, gorffennodd bob un ohonynt y chwe milltir ar hugain 385 llath. Roedd amser Ieuan Jones (15 oed) yn dderbyniol iawn - 3 awr 36 munud ac amser Luke Evans (11 oed) yn addawol iawn - 3 awr 58 munud. Ar ôl rhedeg drwy'r gwlyb-aniaeth a'r oerfel, haeddent ganmoliaeth uchel a dymuno pob lwc i'r disgyblion yn eu rhedeg yn y dyfodol, ac i'r athrawon yn eu loncian ysbeidiol rhwng y marcio trwm a'r paratoi gwersi gofalus!!



Rhes gefn (chwith i'r dde) Mr. D. Pretty, S.Davies, S.Griffiths, D.Gower, G.Beech, N.Daniel, Mr. Roy Davies.
Rhes flaen (chwith i'r dde) Mr. D.Griffiths, I.Jones, L.Evans, H.Pritchard, K.Davies, S.Davies, I.Henson, Mr. A. Owen.

Rhaid diolch o galon i nifer o ddarllenwyr a swyddogion rhai o'r cymdeithasau am ymateb cyflym i'r apêl a wnaed am gymorth ariannol yn rhifyn Hydref. Efallai mai siomedig ydoedd o ran nifer i'r hyn a obeithiwyd ei dderbyn ond efallai mai dyddiau cynnar yw'r rhain!

Beth bynnag, bu'r symiau a ddaeth i law yn ddigon i dalu am gost argraffu rhifyn Medi ac yn help i glirio ein dyled yn y banc. Bu'r ymateb hwn yn gam pwysig i achub y Dinesydd. Diolch eto.

Hyd at Hydref 26, derbyniwyd £184 oddi wrth 21 o unig-olion, symiau yn amrywio o geiniogau i £25. Daeth £95 oddi wrth dair cymdeithas. Diddorol efallai yw dweud fod 30c a 50c wedi ei dderbyn oddi wrth ddau blentyn wyth oed. Nid yw'n deg efallai enwi unrhyw symiau unigol a dderbyniwyd ond rhaid diolch a chydnabod unwaith eto cyfraniad hael iawn oddi wrth Gymdeithas Canna, sef yr enw newydd ar Gymdeithas y Dysgwyr yng Nghanolfan yr Urdd.

Cafwyd neges hefyd fod £350 ar y ffordd yn fuan o'r Swyddfa Gymreig fel rhan o'r Gronfa arbennig a sefydlwyd i roi cymorth i'r Papurau Bro led-led Cymru.

Canlyniad hyn gyda'r incwm a hysbysebion yw fod y Pwyllgor Rheoli yn ffyddiog erbyn hyn y gall glirio'r ddyled am argraffu rhifyn Hydref a chyhoeddi rhifynnau yn Nhachwedd a Rhagfyr heb fynd i ragor o ddyled.

Dibynna'r rhagolygon am 1983 i raddau mawr ar ffrwyth yr apêl hon a bydd rhaid i'r Pwyllgor barhau i ofyn yn daer i Gymdeith-asau a'r darllenwyr am ragor o gyfraniadau. Mae angen tua £850 eto o bob ffynhonnell er mwyn sicrhau cyhoeddi rhifynnau gweddill ein blwyddyn ariannol, sef Ionawr, Chwefror a Mawrth 1983.

O ble y daw'r adnoddau?

Gellir dibynnu ar dderbyn £280 oddi wrth Archebion Banc sydd mewn bodolaeth eisoes, dros y pum mis nesaf, a derbyn efallai tua £300 oddi wrth hys-bysebion. Bydd hyn yn ein gadael yn fyr o £270.

Daw rhan o'r swm yma o'r elw y disgwylir ei gael wrth gynnal y Parti blynyddol ar Ionawr yr 8fed yn Neuadd Goffa Rhiwbeina (Gweler manylion yn yr hysbyseb yn y rhifyn hwn). Gobeithiwn yn fawr y gellwch ddod i fwynhau eich hun a dod a'ch cyfeillion, ac wrth wneud hyn, helpu i wneud y noson yn un ddifyr a llwyddiannus ym mhob ystyr.

Serch hynny, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Rheoli barhau i ofyn am gyfraniadau ac am daliadau cyson blynyddol (neu fisol) drwy'r sustem o daliadau drwy Archebion Banc. Mae tipyn o waith i'w wneud eto er mwyn achub y Dinesydd.

Felly rhoir cyfle eto ichwi anfon cyfraniad, neu i gwblhau Archeb Banc drwy lenwi un o'r ffurflenni sy'n ymddangos yn y rhifyn hwn.

Gobeithiwn y gwnewch - ac ar unwaith!


**KEN DAVIES**

***FFERYLLYDD***

***32A Heol Ddwyreiniol y Bontfaen,***
***Treganna,***
***CAERDYDD***

# O'R SEDD GEFN

Sut y gall cyfrwng sydd fel arfer yn cael ei gysylltu â Disney a chwedloniaeth a byd ffantasi plant gael ei ddefnyddio hefyd i bortreadu trais ac aflonyddwch a gwallgofrwydd? Dyna'n gymwys a wna Alan Parker yn ei ffilm ddiweddaraf, sef Pink Floyd - The Wall. Ynddi defnyddiodd gymysgedd o ffilm a chartŵn i greu un o'r gweithiau sinematig mwyaf llwyddiannus a chyffrous ers tro byd.

Seilir digwyddiadau'r ffilm ar hanes canwr pop o'r enw Pink (Bob Geldorf). Hwn yw prif gymeriad y ffilm ac yn wir fe yw'r unig gymeriad o bwys drwyddi draw. Egyr yng nghyfnod yr ail Ryfel Byd gan ddangos Pink yn grwt ysgol (Kevin McKeon) ar goll ynghanol llu o brofiadau a dylanwadau gwrthgyferbyniol. Mewn cyfres o olygfeydd hynod sensitif gwelwn fachgen ifanc yn ceisio ymgodymu â marwolaeth ei dad ac yn ceisio dod i delerau â dyfodol gelyniaethus heb dad i'w amddiffyn. Mae ei fam yn gwbl ddi-hid i'w alaru ac yn lle estyn llaw dyner i'w mab y mae, yn hytrach, yn arllwys y cyfan o'i chariad arno fel ei bod yn ei fygu. O'r man cychwyn hwn cawn ddilyn Pink trwy ddyddiau ysgol hynod boenus a thrwy dor priodas ac o dipyn i beth wele'r mur seicolegol yn cael ei godi'n uwch ac yn uwch gan wahardd unrhyw ddylanwadau hunllefus. Hyd yn oed wedyn ac yntau'n ganwr pop llwyddiannus nid yw'r cyffuriau yn cynnig unrhyw ateb i'w benbleth.

Ychydig iawn o ddeialog a geir trwy gydol y ffilm hon a dibynna'r stori ar y gweledol yn amlach na pheidio - ar gyfres o ddelweddau hynod gofiadwy a hynod ffyrnig a helbulus hefyd, weithiau trwy gyfrwng ffilm gyffredin a phryd arall trwy gyfrwng cartŵn. Yn wir dyma un o uchelfannau'r ffilm, ac wrth gwrs mae Gerald Scrafe yn gartwnydd cyd-nabyddedig yng ngwledydd Prydain, America a'r Cyfandir. Mae ei waith yn y ffilm hon yn wirioneddol gelfydd. Cymar teilwng i'r cartwnau yw'r gerddoriaeth gan Pink Floyd, ond rhan yn unig o'r ffilm yw'r agwedd yma.

Cyfyd nifer o gwestiynau yn y ffilm, cwestiynau am gyflwr cymdeithas, cwestiynau am ddylanwad awdurdod, cwestiynau am oferedd perthynas pobl â'i gilydd, ond gadewir i ni'r gynulleidfa ddod o hyd i'r atebion. Yn y pen draw rhybudd sydd yma am ansawdd bywyd ac anogaeth i'r gynulleidfa feddwl a phendroni ynghylch cyflwr a natur eu sicrwydd neu ddiffyg sicrwydd beunyddiol.

Ioan Kidd

## Chwaraeon - o tud 4

o'r sylw mae'n sicr, a bydd o leiaf rhyw 25 munud yn cael ei neilltuo ar gyfer dangos rhannau o gêm rhwng y clybiau Cymreig.

Gobeithir yn ogystal allu dangos pigion o brif chwaraeon eraill Cymru, Prydain, neu hyd yn oed y byd fel y bo'r galw yn ystod y rhaglen. Go brin, serch hynny, y bydd pel-droed i'w weld ar nos Sadwrn eleni - mae'r hawl gan ITV i ddangos y chwarae, ond ymddengys fod trafferthion cytundebol yn llyffethair i ddatrys unrhyw broblem.

Rhaglen yn para tan ddiwedd y tymor rygbi fydd 'Y Maes Chwarae' yn ôl a ddeallir, er fod peth gobaith y gellir yn ystod yr haf gael dangos gemau criced, athletau a thebyg, yn achlysurol. Gobeithir hefyd allu dod a champau pwysig yn ymwneud, â chlwbiau neu unigolion Cymreig i'r sgrin yn ystod yr wythnos.

Bydd yn rhaid i'r gŵr a'i bunt sy'n awyddus i fetio wrando ar y rasus ceffylau trwy geg y Sais neu'r Gwyddel o hyd yn anffodus - toes na neb hefo clustiau ddigon mawr nag yn "gallu-siaradyngyflymigadwifyny-arceffylau' ar gael ar hyn o bryd mae'n amlwg.

Tebyg hefyd a welwn, yn ogystal â'r rhaglenni chwaraeon, raglenni yn ymwneud â chwaraeon - portreadau o enwogion y gêm neu'r gamp, rhaglenni hyfforddi (sylwaf fod rhaglen 'Chwarae Rygbi' ar y gweill gan gwmni annibynnol) neu hanes - mae yna le i arborfi yn sicr. Cawn weld.

Pob hwyl i'r sianel a phob hwyl i'r S4CHwaraeon.

Rhodri Gwyn Jones

## TORRI GAIR - THEATR CYMRU

Cyf. Elan Clos o 'Translations' gan Brian Friel.

"Y weithred yma o ymseis-nigeiddio enwau lleoedd a achosodd, ym marn, Friel, i wlad gyfan gael ei hail-fedyddio".

Roedd disgwyl mawr i'r ddrama hon, gan mai dyma gynhyrchiad cyntaf Emily Davies, Cyfarwyddwr Artistig newydd Theatr Cymru. Da o beth felly oedd gweld y Sherman dan ei sang nos Sul, Hydref 17. Gresyn yn wir nad oedd hi'n bosibl i'r ddrama fod yma am ddwy neu dair noson. Cafodd y ddrama hon gryn ganmoliaeth yn ystod ei thymor yn y Theatr Genedlaethol yn Llundain a'i henwi fel y ddrama bwysicaf i ddod o Iwerddon ers marwolaeth O'Casey.

Teimlaf fod y cyfieithiad hwn gan Elan Closs yn wirioneddol effeithiol, ac yn sicr ddigon roedd yna arwyddocad pendant ynddi i ni fel Cymry. Llwyddodd y cymeriadau i gyfleu y gwahaniaeth rhwng y Wyddeleg a'r Saesneg drwy gyfrwng y ddwy acen yn gymharol dda, er nad oedd Owen (Ynyr Williams) wedi cael cystal hwyl arni yn yr act gyntaf. Roedd cryn gyfrifoldeb arno fel dolen-gyswllt ac fe wellodd wrth fynd yn ei flaen. Golygfa mwyaf effeithiol y ddrama i mi oedd yr olygfa garu rhwng Nia Caron a Richard Elfyn. Crewyd awyrgylch fendigedig yma rhwng dau actor a oedd yn amseru yn rhagorol. Hoffais berff-ormiad sensitif Betsan Llwyd fel Sarah. Roedd ei symudiadau yn gelfydd iawn.

Roedd angen aeddfedrwydd Mici Plwm ac Elfed Lewis yn y ddrama hon, ac yn wir, crewyd cymeriad hyfryd gan Mici Plwm yn arbennig. Dyma ddechrau gwir addawol gan y Cwmni ifanc hwn. Edrychaf ymlaen yn frwd-frydig at y cynhyrchiad nesaf. Pob llwyddiant i'r Cwmni i'r dyfodol.

Rhiannon Rees.

Ffôn: Caerdydd 562816

LYNN JONES

Buddsoddiadau Yswiriant Bywyd Pensiynnau

## BYD Y BOL

GWESTY CAERDYDD

Cyrraedd y lle oedd y gamp fwyaf! Rown i'n drwm dan faich parseli a bagiau trwm (wedi mynd i wneud tipyn o siopa 'Dolig mewn da bryd eleni!) pan benderfynish i fynd i weld sut siâp oedd ar y lle 'ma.

Cerdded a cherdded y bues i. Heibio'r Pwll Nofio Ymerodrol. Dros y bont. A heibio nifer o dai amheus. Fy magiau bron â thynnu fy mreichiau hyd y llawr, fy nhraed, druain, yn grwgnach yn arw. Wedi'r cyfan, roedd sawl paned o de i'w chael yn nes na hyn at ganol y ddinas.

Ond dyma gyrraedd. Cael pob croeso, cofiwch, a hyd yn oed cymorth 'da'r llwyth, tra ddois i o hyd i gadair. Y cyrn ar fy nhraed yn ddiolchgar iawn imi.

Ar ôl y fath bererindod, dyma fi'n penderfynu cael trêt fach - a hanner o lager fu hi. Hwnnw'n oer braf a finna'n llyncu sut olwg oedd ar y lle er mwyn imi gael deud y cyfan wrthych chi. Yn anffodus, chofia i fawr erbyn hyn - dim ond fod y lle'n gysurus. Bwydlen ddifyr i'r lle bwyta go iawn, mi sylwais, ond dyma fi'n bodloni ar bryd bach byr. Hwnnw'n flasus a rhesymol.

Ydy'r lle'n haeddu ei enw? Anodd deud ar ôl brechdan a hanner o lager. Ond gawn ni ddeud ei fod yn argoeli'n dda. Nid oedd fy mhrofiad i yn dreth o gwbl ar y bol - nac ar y boced ychwaith i fod yn deg. Dim ond y traed oedd yn anhapus.

Doris Griffiths


**CYSTADLEUAETH FAWR!!!**

I gyd-fynd â'r llyfr llawn rhamant diweddaraf yng Nghyfres y Fodrwy gan Gyhoeddiadau Mei

**LLETY NOSON**

*Cyfle i ennill PENWYTHNOS i ffwrdd mewn GWESTY MOETHUS yn y wlad!!*

**Edrychwch yn PAIS mis Hydref am y manylion, neu cysylltwch â Swyddfa Pais, 40 Stryd y Wyddfa, Penygroes, Gwynedd. Ffôn Penygroes 302**


## Y SILFF LYFRAU

Marion Eames, Y GAEAF SYDD UNIG, Gwasg Gomer, £5.95c.

Y peth cyntaf sy'n taro rhywun ynglŷn â'r gyfrol hon yw'r clawr papur hardd. Fe'i dyluniwyd yn Adran Ddylunio y Cyngor Llyfrau, gan ddefnyddio llun lliwgar o waith Sylfia Vater. Yn yr un sefydliad, ond gan yr Adran Olygyddol, y golygwyd y gyfrol. Noddir yr adrannau hyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r sefydliad hwnnw a roddodd ysgoloriaeth i Marion Eames i'w rhyddhau o'i dyletswyddau eraill dros gyfnod yr ymchwilio a'r ysgrifennu. Dyma, felly, gefndir sefydliadol y nofel hanesyddol hon.

Ugain mlynedd olaf Llywelyn ap Gruffydd; dyna yw cyfnod y nofel. Mae Llywelyn, felly, fel y gellid disgwyl, yn un o'r prif gymeriadau. Ond rhaid aros am 40 tudalen cyn iddo ymddangos. Yn y cyfamser fe'n cyflwynir i'r ddau brif gymeriad arall, Mabli a Tegerin.

Mabli yw canolbwynt emosiynol y nofel. Yn wir mae'r nofel yn dlotach pan nad yw hi'n cyfrannu i'r golygfeydd. Tegerin yw'r cymeriad a ddefnyddir gan yr awdur i'n tywys o le i le, o ddadl i ddadl.

Daw'r tri chymeriad ynghyd yn un o uchafbwyntiau'r nofel, gwledd i groesawu Eleanor, gwraig ifanc y tywysog. Mae Tegerin yn caru Mabli, Mabli yn caru Llywelyn, Llywelyn yn caru ei wraig, a dyma bawb yn wynebu'i gilydd a'r awyrgylch yn llawn tyndra.

Yr hyn sy'n cysylltu'r cymeriadau hyn yw eu hunigrwydd, a phortread yr awdur o unigrwydd Mabli yw'r peth gorau yn y nofel.

Fel awdur profiadol iawn yn y maes, gŵyr Marion Eames sut i gyflwyno'r cefndir hanesyddol heb ddiflasu'r darllenydd; weithiau trwy gyfrwng sgwrs, dro arall trwy draethu uniongyrchol. Fodd bynnag, wrth ymdrin â chyfnod cymharol faith y tu mewn i gloriau un nofel, nid yw wedi rhoi llawer o gyfle iddi hi ei hun i ailgreu'r digwyddiadau mewn ffordd gofiadwy. Cymharer, er enghraifft, ddisgrifiad Marion Eames o'r cyrch ar Arfon o gyfeiriad Môn (t 248) a'r hyn a geir yn nofel fwy hamddenol Gweneth Lilly, 'Rwy'n Cofio Dy Dad' (Pennod 14).

Camgymeriad fyddai dweud bod un nofel yn well na'r llall. Mae'r ddau awdur wedi ceisio ymgyrraedd at yr un nod, gan lwyddo i raddau helaeth iawn. Edrychwn ymlaen, yn awr, at ddarllen nofel Rhiannon Davies Jones.

Philip Wyn Jones

Aled Islwyn, SARAH ARALL, Gwasg y Dref Wen, £2.25c.
Gwenlyn Parry, SAL, Gwasg Gomer, £2.25c.

Mae'n debyg i mi gael y ddau lyfr yma i'w hadolygu efo'i gilydd am 'mod i'n gwybod rhywbeth am yr anhwylder seiciatrig anorexia nervosa. Mi rydw i wedi bod yn gofalu am rai'n dioddef ohono, sef pobl ifainc, merched fel arfer, sy'n nychu ac yn edwino nes mynd yn guriedig os nad yn gelain.

Credir ei fod yn amlygu rhyw anallu neu anfodlon rwydd ar ran y cleifion i brifio a dŵad i oed. Yn achos merched tuedda i ddigwydd yn eu glasoed neu lencyndod, a'i effaith ydy atal dechreuad neu barhad y misglwyf a phob newid yn ffurf y corff tuag at aeddfedrwydd benywaidd. Mae'n anhwylder angheuol yn aml. Mewn llawer o'r achosion ceir amwysedd y ynghylch rhyw o fewn y teulu, a pherthynas glos ond braidd yn haearnaidd rhwng un o'r rhieni a'r plentyn.

Rwan 'ta, mae'r ddau lyfr yn ymwneud i ryw raddau â'n hagwedd ni heddiw tuag at yr hyn a ddigwyddodd i Sarah Jacob yn Llanfihangel ar Arth rhwng 1867 a 1869. Ceir yr hanes yn llyfr Dr. John Cule 'The Wreath on the Crown', sy'n sôn am achos enwog 'The Welsh Fasting Girl'. Bu farw'r ferch, a chyhuddwyd ei rhieni o'i lladd. Amdani hi y lluniodd Gwenlyn Parry ei ddrama, sy'n gosod yr achos o flaen rheithwyr o gynulleidfa gyfoes. Am ferch gyfoes sy'n uniaethu

ei hun â'r Sarah Arall honno y mae nofel Aled Islwyn ac yntau'i hun yn or-or-nai iddi hi. Gwelwyd drama Gwenlyn ar daith yn 1980, y flwyddyn pan enillodd Aled Wobr Daniel Owen am y nofel hon.

Peth anodd ar y naw ydy sgwennu am bobl annormal. Mae'r peth yn medru swnio'n annaturiol os nad yn feichus. Mae gan Kafka stori am 'Newynwr' (Storiau Tramor, ac nid am Ymprydiwr sylwer), lle mae'n sôn am wedd ar y math o ymddygiad sydd dan sylw yn y gweithiau hyn. Mae'n stori anodd i'w darllen. Mae gen i ofn fod rhannau o nofel Aled yr un fath. I mi, mae'r dehongliad yn taro deuddeg o safbwynt seiciatrig am y rhan fwyaf o'r gwaith. Mae'r berthynas rhwng y ferch a'i rhieni ac efo dynion y tu allan i'r teulu yn cael ei disgrifio'n effeithiol. Dylai pob darllenydd sylweddoli mor wrthnysig o ffiniol ydy'r nam ar berthynas y ferch â phobl eraill. Mae dyn yn gwylltio wrthi am ei bod mor hurt o wrthryfelgar a hithau, i bron bob ymddangosiad, heb fod yn orffwyll. I mi, eto, collwyd hyn pan aeth y diwedd dros ben llestri.

Gobeithio y caiff pawb flas ar y sgwennu, ar gyflwyno dieithrwch y sefyllfa a'r cefndir. Gobeithio hefyd na fydd rhai yn gweld gormod o ôl achos clinigol seiciatrig ar y cyflwyniad. Byddai hynny yn drueni mewn gwaith mor uchel-geisiol gan awdur mor addawol.

Trown at Sal, Gwenlyn. Mae yma hefyd gyflwyno perthynas od rhwng merch a'i rhieni, yn enwedig efo'r tad y tro yma. Mae rhywbeth o'i le ynghylch eu hagwedd at ryw, ac at grefydd ddwedwn i. Hwyrach fod y sefyllfa'n ddigon cyffredin yn y man a'r cyfnod, yn ardal ac amser 'My People' Caradoc Evans. Fel arfer, mae gwaith Gwenlyn yn theatrig ac yn ddramatig, ond fod yna lai o'r elfen olaf nag arfer. Ceir ymdriniaeth â dwy o'i hoff themâu, sef rôl merched ym mywyd dynion - p'run ai llestri i dderbyn neu ddenu had neu syniadau ydyn nhw ynteu pobl gyflawn, a natur ffydd grefyddol. Crynhoir hyn ym mherson neu gymeriad y tad yn y ddrama. I mi, collir llawer o'r gwrthdaro dramatig y ceisir ei greu am fod y tad yn rhy debyg i un o gymeriadau gorffwyll-'grefyddol' dramâu Arthur Miller, a'r ferch a'r fam yn rhy wan i gynnal gwrthdaro. Rydw i'n derbyn honiad Dr. Cule i'r chwaer neu'r fam smyglo bwyd i Sarah nes i'r wyliadwraeth gan bobl o'r tu allan ddechrau, sef dechrau diwedd Sarah. Ond mae'n debyg mai bwriad Gwenlyn oedd dangos gwrthdaro rhwng cariad a ffydd yn y tad, yn gyffelyb i'r un yn 'Amlyn ac Amig' neu yn hanes Abraham ac Isaac yn yr Hen Destament. O safbwynt dramatig, trasiedi ddylai 'Sal' fod, nid gwrthdaro rhwng 'ffydd' a 'gwyddoniaeth'. Mae hwnnw, fel yr awgryma Rhydderch Jones yn ei ragymadrodd da, yn gweithio'n well yn 'Saer Doliau'.

Er hyn i gyd, mae yma ddwy gyfrol sy'n werth eu darllen.

Harri Pritchard Jones

Rwyf yn arbennig o ddiolchgar i Ferched y Wawr (Rhanbarth De a Chanol Morgannwg a Gwent) am dynnu fy sylw at eu llyfryn 'Rhamant Morgannwg' (ar gael am 60c yn Oriel a Siop Taflen). Mae iddo chwe adran yn ymwneud ag enwogion Morgannwg, pobl fel Gerallt Gymro, Ifor Bach ac Iolo Morganwg. Yn ogystal, ceir map defnyddiol a ffotograffau du-a-gwyn o chwe collage trawiadol a luniwyd gan wahanol ganghennau'r rhanbarth. Yn ngefn y gyfrol rhestrir dros ugain o gyfrolau ar gyfer darllen ymhellach.

P.W.J.

Carai Pwyllgor Rhanbarth Merched y Wawr ddiolch yn gyhoeddus i'r tri gŵr hyn am eu cymorth parod ynglŷn â'r llyfryn 'Rhamant Morgannwg' - Islwyn Jenkins, y tynnwr lluniau; Nic ap Glyn, am argraffu'r llyfryn ar gyfer Sioe Amaethyddol Llanelwedd, a John Livsey, am argraffu'r llyfryn presennol. Heb gymorth parod a phroffesiynol y tri hyn, ni fuasai wedi bod yn bosibl cyhoeddi'r llyfryn.

C.J.

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

DIOLCH

Ein diolch i'r canlynol am eu cymorth i wneud 'Y Trip' yn llwyddiant - Côr yr Aelwyd, Pedwarawd y Winllan, Gareth, Dafydd, Raymond, Mallt, W.J., John, Myfanwy, Shân ac Alan, Capel Ebeneser a'r Bwji Cymraeg olaf. Diolch arbennig i Cen am drefnu'r cyfan. Bydd mwy am 'Y Trip' yn rhifyn Ionawr.

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Rhagfyr/Ionawr at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (753625) erbyn Tachwedd 20fed.

PARTI NOS YSTWYLL Y DINESYDD

NOS SADWRN IONAWR 8 1983

Neuadd Goffa RHIWBEINA

8 o'r gloch


£2.00

CAWL GWIN A CHÂN



HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD 561788

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 27



**Ar Draws**

1. Cythraul (4)
3. "Hidlo gwybedyn, a ----- -----" (5,5)
10. "O --- -- Mhriod pwy
    a'm dwg?
    Mae'r afael sicraf
    fry"(Eben Fardd)
    (3,2)
11. Camsyniad, camddealltwriaeth. (9)
12. Pethau, lleoedd a ffeithiau y deuir o hyd iddynt. (14)
14. Ambersain (7)
15. Rhoisom nawdd iddo. (7)
17. Y mae yn llonni. (7)
19. Eirin duon bach. (7)
20. Dau gyflwr gwrthgyferbyniol yn hanes pobl. (7,2,5)
23. Mae hyn yn wir pan fo'r annel yn gywir. (2,1,6)
24. Gwroniaid (5)
25. Tamaid danteithiol (10)
26. Ychwanegu rhifyddol (4)

**I Lawr:**

1. Buost yn ymlid. (10)
2. Gwron y llechi (1,8)
4. Cael practis (7)
5. Dwrdiadau (7)
6. Yr hyn sydd gan un a fuddsoddodd mewn cwmni (14)
7. Offeren gan Beethoven yw'r "----- Solemnis" (5)
8. "Pa werth na thry yn
    wawd,
    Pan ---- dyn ei frawd"
    (Waldo) (4)
9. Gwasanaethau cerddorol (10,4)
13. Wrth daro dyn yr ydych yn ------ ---- (6,4)
16. Symudwyd yn llechwraidd (9)
18. Proffes yr ysgolfeistr (7)
19. "----- -- mam neu fy nhad yw f'ewythr". (5,2)
21. "- ---- sain telynau
    glân
    Ar uchaf gân gogoniant".
    (R. ap G. Ddu) (1,4)
22. Curiad gwag yn y gerddoriaeth. (4)

**DATRYSIAD CROESAIR RHIF 26**

Ar Draws: 1. TAI; 4. CADWAF; 7. ADEG; 10. TRO; 14. OEN; 16. LLAWENHAWN; 17. SEN; 19. RONG; 20. FEL; 22. SGERBWD; 23. DOS; 25. ATODI; 27. NOA; 28. CHYDIG; 31. PIGOG; 34. OND; 36. CEGIN; 38. DIL; 40. REALITI; 42. MAB; 54. ADDFWYN; 55. EANG

I Lawr: 2. AT; 3. IRO; 5. DALL; 6. ANWES; 8. DIARBED; 9. GANEDIG; 11. OES; 12. ANNERCH; 13. BERFA; 15. NEF; 18. NED; 21. LON; 24. SOWND; 26. TRI; 29. YWEN; 30. IDDI; 31. PARHAOL; 32. GWARCHAE; 33. GWIWER; 35. DIM; 37. NEUADD; 39. LAS; 41. IRWYDD; 43. BWS; 46. SUT; 48. DDAW; 50. DDOE; 52. NA.


**R.A. DREW**
**158 Heol Ddwyreiniol y Bontfaen,**
**Treganna. Tel 28796**

***Ffrwythau a Llysiau o bob math***
***Cyflenwad ffres beunydd***

**Hefyd yn**
**Y Farchnad Ganolog, Caerdydd**
**Stryd Dynrafon Isaf, Tonypandy, a**
**Camm's Corner, Dinas Powys.**

**GRIFFITH & EVANS**
**SWYDDFA'R POST,**
**105 Heol Ddwyreiniol y Bontfaen**
**(gyferbyn ag Ysbyty Dewi Sant)**

***Papurau Newydd, Cylchgronau, Cardiau, Losins, Sigarets, Baco, Hufen Ia, Creision, a.y.b., a.y.b.***


Argraffwyd gan Fingerprints(TU), Caerdydd.